

Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd
meysydd llên, crefydd a hanes yng
Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



Guto Nyth Brân a'r Cyw Cloff: dau redwr rhagorol (rhan 2)

Yn y golofn hon yn rhifyn mis Mai o'r *Dinesydd*, soniwyd am redwr enwocaf Cymru yn y 18fed ganrif, sef Guto Nyth-brân o blwyf Llanwynno i'r gogledd o Bontypridd. Soniwyd hefyd fel y daeth rasio ar droed yn adloniant hynod boblogaidd yn ne-ddwyrain Cymru erbyn y 19eg ganrif. Ac oherwydd y twf aruthrol yn y boblogaeth yn sgil y diwydiannu mawr yno, gwelwyd torfeydd enfawr yn tyrru i wyllo rhedegfeydd ac i fetio arnynt.

Y tro hwn, rhown sylw i un o redwyr enwocaf Cymru yn y 19eg ganrif, sef John Davies – un yr hawlid ei fod yn ail agos fel rhedwr i Guto Nyth-brân ei hun. Roedd rhoi llysenwau i redwyr yn arfer cyffredin iawn yng nghyfnod John Davies. I nodi ond llond dwrn ohonynt, dyna 'The Collier Boy', 'Pannwr', 'The Cambrian Clipper', 'Croes-faen', 'The Flower of the Forest', 'Maer Trebanog' a 'The Maendy Boy'. Fel y gwelir, mae rhai o'r llysenwau yn cyfeirio at le penodol, a cheir nifer hefyd sy'n cyfeirio at anifeiliaid, megis 'The Llandaff Deer' a 'The Welsh Bantam'. A llysenw cysylltiedig ag anifail oedd un John Davies. Fe'i gelwid weithiau yn 'Shon y Cyw' neu 'Shon y Cyw Cloff', ond yn amlach na pheidio, cyfeirid ato yn syml fel 'Y Cyw Cloff'.

Mae'n bosibl fod ei llysenw yn cyfeirio at faintioli John Davies. Roedd yn gymharol fach ac ysgafn, tua phum troedfedd a hanner o ran taldra ac yn pwyso tua naw stôn – roedd yn 'bantam', felly, o ran corffolaeth. Sonnir hefyd am ei allu i hedfan ymlaen wrth redeg, fel pe bai adenydd ganddo. Ond mae'n ogleisiol gweld nifer o lefydd yn agos at fan ei eni ag enwau sy'n gysylltiedig mewn rhyw ffordd â ieir.

Ganed John Davies ym mis Mawrth 1822 yn ardal Bryncethin, ychydig i'r gogledd o Ben-y-bont ar Ogwr. Dywedir fod ei dad yn dod o gyffiniau Coety a'i fam o naill ai Heol-y-cyw neu Ben-coed. Mae Heol-y-cyw i'r gogledd o Ben-coed, a diddorol gweld fod lle o'r enw Rhiwceiliog mewn ardal gyfagos. Ac yn wir, nid yw'n amhosibl fod John Davies wedi ei godi ar fferm o'r enw Bryn-cwils ger pentref Bryncethin.

Mae rhai wedi dweud nad ar ôl rhywle fel Heol-y-cyw y cafodd John Davies ei llysenwi, ond am fod ei rieni yn magu llawer o ieir, hwyaid a gwyddau. Ond beth bynnag yw'r esboniad, gwyddom fod 'Cyw' hefyd yn llysenw ar aelod arall o deulu John Davies, oherwydd gelwid ei frawd, David – a oedd yntau'n fach o gorffolaeth, ond yn gryf iawn – yn 'Dai'r Cyw'. Roedd Dai yn byw ym Maesteg erbyn iddo briodi yn Nhachwedd 1846, a lluniwyd yr englyn ffraeth hwn adeg ei briodas, sy'n chwarae ar ei llysenw:

Tra hynod ei glod trwy'r gwledydd, — gynnu
Yn gyw y bu Dafydd:
Heno, gobeithio y bydd
Yn geiliog digywilydd.

Gellir cynnig sawl eglurhad posibl, felly, dros llysenwi John Davies yn 'Gyw'; ond mwy anodd yw ceisio esbonio pam y rhoddwyd yr enw 'Cyw Cloff' ar un o redwyr mwyaf chwimwth ei oes!

Dechreuodd y Cyw Cloff rasio tua'r flwyddyn 1840, pan oedd o gwmpas 18 mlwydd oed. Enillodd ei ddwy ras gyntaf ac o'r herwydd fe'i gosodwyd gan ei gyfeillion i redeg yn erbyn William Bevan o Bont-rhyd-y-fen, neu Wil o'r Waun fel y'i gelwid, un o brif redwyr Morgannwg. Rhedodd ddwywaith yn erbyn Wil a cholli'r ddeutro, er i'r Cyw ddod yn agos iawn at ennill yr eildro.

Ond gwella'n gyson a wnaeth perfformiad y Cyw, gymaint felly nes iddo redeg ddwywaith yn nechrau 1844 yn erbyn un o brif redwyr y Saeson, sef John Tetlow o ardal Oldham ger Manceinion. Ac er mai'r Sais oedd y ffefryn, enillodd y Cymro y ddeutro.

Cynhaliwyd y ras gyntaf o'r ddwy ar y Cimdada, tir comin i'r gogledd o dref Llantrisant a chyrchfan boblogaidd ar gyfer rhedegfeydd. Lleoliad yr ail oedd Llanilltud Faerdref, ar ran o'r heol newydd rhwng Llantrisant a Threfforest a godwyd ychydig ynghynt. Yn ôl un amcangyfrif, roedd dros dair mil o bobl yn gwyllo'r ras honno. Parodd buddugoliaeth y Cyw gryn syndod i'r arbenigwyr, a chryn golled ariannol iddynt hefyd. Dywedir fod bron £1,000 yn dibynnu ar y ras, a bod John Tetlow ei hun wedi colli £500.

Aeth John Davies ymlaen wedyn i redeg yn erbyn William Bevan am y trydydd tro, ac yn lle colli fel y troeon cynharach, fe enillodd yn rhydd. O'r herwydd, penderfynwyd gosod y Cyw yn erbyn rhai o bencampwyr Lloegr. A chanlyniad hynny oedd iddo redeg sawl ras yn erbyn Tom Maxfield (1819–64), a llysenwyd 'The North Star' ar ôl y 'North Star Inn' yn Slough.

Brodor o Sheffield oedd Tom Maxfield, ond treuliodd dipyn o'i oes tua thair milltir o Slough, yn Windsor, a marw yno mewn tlodi mawr yn 45 oed. Cludydd glo ydoedd wrth ei alwedigaeth, ond roedd hefyd yn un o brif redwyr Lloegr. Rhedodd mewn dros hanner cant o ornestau yn erbyn rhai o redwyr gorau'r wlad a phrofi bron yn anorchfygol.

Trefnwyd ras rhwng John Davies, Tom Maxfield a rhedwr amlwg arall o'r enw William Jackson, a llysenwyd 'The American Deer', yn Slough ar gyfer dydd Mawrth, 11 Chwefror 1845. Maxfield a enillodd y ras, gyda'r Cyw ryw 20 llath ar ei ôl, a Jackson yn drydydd, dros 50 llath ar ôl Maxfield.

Ymhen y flwyddyn cyfarfu Maxfield a'r Cyw Cloff unwaith eto, ond yng Nghymru y tro hwn, mewn ras ar y Cimdada, Llantrisant, ym mis Mawrth 1846. Maxfield oedd y ffeirydd i ennill, ond cwympodd cyn gorffen y ras – yn fwrriadol, yn ôl rhai: 'rhag colli'r gamp, gwell oedd cwympo', meddent! Penderfynwyd cynnal ras arall rhwng y ddau, a hynny ar y 'Lansdown Race Course' yng Nghaerfaddon (*Bath*) yn Rhagfyr 1846, a'r tro hwn enillodd y Cyw yn rhwydd.

Roedd nifer o'i gyd-Gymry wedi mynd i Gaerfaddon i gefnogi'r Cyw, ac roedd y rheini, wrth gwrs, wrth eu bodd â'i fuddugoliaeth. Am wyth o'r gloch y bore ar ôl y ras, hwyliodd John Davies a nifer o'i gefnogwyr o Fryste i Gaerdydd ar y *Prince of Wales*, un o'r ddwy long ager a hwyliai'n rheolaidd rhwng y ddau borthladd yr adeg honno. Daeth rhai cannoedd o'i gefnogwyr ynghyd yng Nghaerdydd i gyfarfod â'r Cyw. Trefnwyd ymlaen llaw y byddid yn addurno'r llong petai John Davies yn ennill; a phan welwyd y *Prince of Wales* yn cyrraedd porthladd Caerdydd wedi ei haddurno â lliwiau'r Cyw Cloff, sef glas, fe'i croesawyd â bonllafau o gymeradwyaeth.

Er i Tom Maxfield gydnabod wrth John Davies ar ddiwedd y ras yng Nghaerfaddon mai ef, y Cyw Cloff, oedd y rhedwr gorau o'r ddau, roedd Maxfield a'i gyfeillion am roi un tro arall ar guro John Davies. Trefnwyd gornest rhyngddynt ym mis Gorffennaf 1847 yn Salt Hill, Slough. Enillodd y Cyw Cloff unwaith yn rhagor, gyda Maxfield yn gorfod cydnabod bellach mai'r Cyw oedd y rhedwr gorau ac na fyddai'n cystadlu yn ei erbyn eto.

Gellid dychmygu'r dathlu mawr yng Nghaerdydd wedi i gefnogwyr y Cyw Cloff ddychwelyd yno ar y *Prince of Wales* ar ôl iddo ennill y ras honno yn Salt Hill, ac yntau bellach wedi trechu yn derfynol y blaenaf o blith rhedwyr y Saeson!

Mae sawl cerdd yn adrodd hanes campau'r Cyw Cloff yn erbyn y rhedwyr Seisnig wedi goroesi ar y taflenni baledi a oedd yn cael eu gwerthu wrth eu cannoedd mewn ffeiriau a marchnadoedd, ac yn y trefi diwydiannol ar Sadwrn pae – a hefyd, wrth gwrs, i'r torfeydd a wyliai'r rhedegfeydd. Ac mae'r angerdd cenedlaethol Cymreig a fynegir yn y cerddi hynny yn drawiadol. Dyma, er enghraifft, bennill a chytgan o un ohonynt:

Mawr yw ffrwst a thrwst y Saeson,
Maeddu'r Cymry yw eu hamcanion,
Ond fe fagwyd yng ngwlad Forgan
Un sy'n cario ar y cyfan.

Cytgan

Dyma blufyn hoywlu un
Ysgafn droed anhawdd ei drin;
Maeddu Sais a wnaed yn sydyn,
Y Cyw fel deryn ydyw'r dyn.

A dyma bennill o gerdd yn dathlu llwyddiant paffiwr o'r enw Daniel Thomas (1823–1910) – neu 'Dan Bach Pontypridd', fel y'i gelwid – mewn gornest yn Llundain yn Hydref 1858, pan drechodd y paffiwr Seisnig amlwg, John Brooks, y 'Norwich Champion':

Nid oes gwiw i'r Saeson bellach
Â gwŷr Morgannwg i ymyrrath;
Y Cyw a'u trecha i redeg gyrfa,
Dan Pontypridd a dorra'u clonna.

Erbyn iddo ddod i amlygrwydd fel pencampwr mawr ym myd rhedeg, roedd John Davies wedi symud i bentref Glan-bad yng Nghwm Taf, ychydig islaw Pontypridd, lle y gweithiai fel glöwr. Yn Eglwysilan, ar 1 Mehefin 1844, priododd Ann, merch hynaf David Davies, a gadwai'r loc ar Gamlas Morgannwg yn Nantgarw. Erbyn Cyfrifiad 1851, roedd John Davies, yn byw yn yr 'Upper Boat Inn' yng Nglan-bad, gyda'i wraig Ann a thri o blant. Ond nid John Davies oedd yn cadw'r 'Upper Boat Inn' erbyn Cyfrifiad 1861; ac mae'n ymddangos iddo ef, ei frawd 'Dai'r Cyw', a'u teuluoedd ymfudo i Awstralia tua diwedd yr 1850au. Dichon mai'r rhuthr aur a'u denodd i Awstralia yr adeg honno; ond tybed pa fath o fywyd a gafodd pencampwr rhedwyr Cymru yn ei wlad newydd, ac a brofodd ef yno unrhyw beth mor gyffrous a chynhyrfus â'r rhedegfeydd y bu'n rhan ohonynt yn yr hen wlad?

[Gellir darllen y cerddi sy'n dathlu campau John Davies yn f'erthygl, 'Baledi er Clod i'r "Cyw Cloff o Fryncethin"', a gyhoeddwyd yn *Canu Gwerin*, 15 (1992), ac sydd ar gael yn electronig yma: <https://www.cardiff.ac.uk/cy/special-collections/subject-guides/welsh-ballads>]